Sut i gymryd rhan

ymddiriedolaeth gofalwyr
gweithredu · cynorthwyo · cynghori

700,000 o resymau i gefnogi Diwrnod Ymwybyddiaeth Gofalwyr Ifanc

Mae Diwrnod Ymwybyddiaeth Gofalwyr Ifanc – 25 Ionawr 2018 – yn ddiwrnod o gydnabod y 700,000 o ofalwyr ifanc sydd yn y DU.

Os ydych chi'n ysgol

Gweler ein poster – Beth allwch chi ei wneud ar Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Gofalwyr Ifanc.

Os ydych chi'n Bartner Rhwydwaith Ymddiriedolaeth y Gofalwyr

- Trefnwch eich digwyddiad eich hun.
- Gosodwch bosteri Ymddiriedolaeth y Gofalwyr yn swyddfa eich gwasanaeth neu crëwch rai eich hunain.
- Trefnwch ymweliad â'ch cynghorydd lleol.
- Gofynnwch i'ch cynghorydd lleol neu aelod seneddol/cynulliad ysgrifennu blog ar gyfer eich gwefan neu bapur lleol, neu recordio ffilm fer ar gyfer cyfryngau cymdeithasol.
- Ewch i ymweld ag ysgol leol.
- Anogwch y cyfryngau lleol i roi sylw i'ch gwasanaeth.
- Ewch i Carers.org/ycad am fwy o wybodaeth.

Os ydych chi'n aelod seneddol/cynulliad neu'n gynghorydd lleol

- Ysgrifennwch blog ar gyfer eich papur newydd lleol a'ch gwefan - soniwch am bwysigrwydd canfod a rhoi cymorth i'r gofalwyr ieuengaf, ac na ddylai pobl gymryd yn ganiatáol eu bod nhw'n rhy ifanc i ofalu.
- Tecstiwch eich cefnogaeth gan ddefnyddio #youngcarersawarenessday. Gallech chi ddefnyddio: Dwi'n cefnogi Carers.org/young-carers-awareness-day-2018 neu Beth am gefnogi'r gofalwyr ieuengaf #youngcarersawarenessday.
- Gosodwch boster Ymddiriedolaeth y Gofalwyr neu wasanaethau lleol i ofalwyr yn eich swyddfa leol.
- Trefnwch ymweliad â'ch gwasanaeth lleol i ofalwyr ifanc.
- Ewch i Carers.org/ycad am fwy o wybodaeth.

Os ydych chi'n feddyg neu'n broffesiynwr gofal iechyd arall

- Gosodwch boster Ymddiriedolaeth y Gofalwyr yn eich practis i godi ymwybyddiaeth ac i annog ymwelwyr i holi ynglŷn â gwasanaethau i roi cymorth i ofalwyr.
- Trydarwch eich cefnogaeth gan ddefnyddio #youngcarersawarenessday. Gallech chi ddefnyddio: Dwi'n cefnogi Carers.org/young-carers-awareness-day-2018 neu Beth am gefnogi'r gofalwyr ieuengaf #youngcarersawarenessday.
- Ewch i Carers.org/ycad am fwy o wybodaeth.

Os ydych chi'n gweithio i elusen neu fudiad arall

- Gosodwch boster Ymddiriedolaeth y Gofalwyr yn eich swyddfa.
- Cynhaliwch ddigwyddiad i gefnogi gofalwyr ifanc.
- Lledaenwch y gair ar gyfryngau cymdeithasol.

Beth all pawb ei wneud

- Tecstiwch CARW18 £5 at 70070 er mwyn gwneud cyfraniad at Ymddiriedolaeth y Gofalwyr a chefnogi gwasanaethau hanfodol bwysig i ofalwyr ifanc.
- Ewch i Carers.org i gael gwybod mwy am ofalwyr ifanc.
- Ewch i Carers.org/ycad am fwy o wybodaeth.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â press@carers.org.

Mae Ymddiriedolaeth y Gofalwyr yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1145181) ac yn yr Alban (SC042870). Cofrestrwyd fel cwmni cyfyngedig drwy warant yn Lloegr a Chymru rhif 7697170. Swyddfa gofrestredig: 32-36 Stryd Loman, Llundain SE1 0EH. © Ymddiriedolaeth y Gofalwyr 2018.